



Mawrth 2026

## Great British Energy - Nuclear a Chyngor Sir Ynys Môn Cytundeb Cydweithio

Mae'r Cytundeb Cydweithio hwn yn nodi egwyddorion cyffredin ar gyfer cydweithio ac nid yw'n rhwymo'n gyfreithiol. Nid yw'n effeithio ar gyfrifoldebau statudol na sefydliadol yr un o'r ddau barti. Gall y naill barti neu'r llall dynnu'n ôl ar unrhyw adeg drwy hysbysu'r llall yn ysgrifenedig.

### 1. Pwrpas

Mae'r Cytundeb Cydweithio hwn yn nodi'r gwerthoedd, yr egwyddorion gweithio a'r disgwyliadau cyffredin a fydd yn llywio gweithgarwch ar y cyd rhwng Great British Energy – Nuclear (GBE-N) a Chyngor Sir Ynys Môn. Y nod yw sicrhau partneriaeth dryloyw, effeithlon, barchus a chadarnhaol sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gymuned yr Ynys ar yr un pryd â chefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, yn unol â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

### 2. Gwerthoedd Cyffredin

Mae'r ddau sefydliad yn cytuno y bydd y gwerthoedd canlynol yn sail i bob agwedd ar y bartneriaeth:

#### Gwerthoedd Cyngor Sir Ynys Môn

- **Parchu** – Byddwn yn ymgysylltu â'n gilydd a'r gymuned mewn ffordd ystyriol, deg a chynhwysol.
- **Cydweithio** – Byddwn yn cydweithio'n rhagweithiol fel partneriaid i gyflawni nodau cyffredin ar gyfer yr ynys a'i thrigolion.
- **Bod yn Onest** – Byddwn yn cyfathrebu'n onest ac yn cynnal safonau uchel o onestrwydd yn ein holl gysylltiadau.
- **Hyrwyddo'r Cyngor a'r ynys** – Byddwn yn meithrin balchder yn Ynys Môn, gan hyrwyddo'r ynys yn gadarnhaol a sicrhau bod ei buddiannau'n ganolog i'n cydweithrediad.



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL



Great British  
ENERGY | NUCLEAR

March 2026

## Great British Energy - Nuclear and Isle of Anglesey County Council Collaboration Agreement

This Collaboration Agreement sets out shared principles for working together and is not legally binding. It does not affect either party's statutory or organisational responsibilities. Either party may withdraw at any time by notifying the other in writing.

### 1. Purpose

This Collaboration Agreement sets out the shared values, working principles, and expectations that will guide joint activity between Great British Energy – Nuclear (GBE-N) and the Isle of Anglesey County Council (IACC). The aim is to ensure a transparent, efficient, respectful, and positive partnership that delivers positive outcomes for the Island community while supporting economic, social, environmental and cultural well-being, consistent with the Welsh Future Generations Act.

### 2. Shared Values

Both organisations agree that the following values will underpin all aspects of the partnership:

#### IACC Values

- **Respect** – We will engage with each other and with the community in a considerate, fair, and inclusive manner.
- **Collaborate** – We will work together proactively as partners to achieve shared goals for the island and its residents.
- **Honesty** – We will communicate truthfully and maintain high standards of integrity in all interactions.
- **Champion the Council and the island** – We will foster pride in Anglesey, promoting the island positively and ensuring its interests are central to our collaboration.



### Gwerthoedd GBE-N

- **Ymddiried:** Rydym yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch, rydym yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn ddidwyll.
- **Herio:** Rydym yn chwilfrydig ac yn ddewr yn y ffordd rydym yn meddwl ac yn ymddwyn.
- **Cymell:** Rydym yn cyflawni pethau ac yn gwneud gwahaniaeth.
- **Gofalu:** Rydym yn ystyriol, yn gynhwysol ac yn parchu eraill.
- **Cydweithio:** Rydym yn gweithio fel tîm; rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac arbenigedd.

Mae'r ddau barti yn ymrwmo i sicrhau bod eu hymddygiad yn cyd-fynd â'r uchod a bod timau'n deall ac yn dangos y gwerthoedd hyn yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

### 3. Egwyddorion Cyffredinol ar gyfer Cydweithio

Gan ddefnyddio egwyddorion cyffredinol cyhoeddedig Cyngor Sir Ynys Môn a safonau sefydliadol GBE-N, bydd y bartneriaeth yn gweithredu yn unol â'r canlynol:

- **Ymrwymiad ac Atebolrwydd**  
Bydd y ddau sefydliad yn gweithredu'n dryloyw, yn cyflawni cyfrifoldebau y cytunwyd arnynt, ac yn cynnal llwybrau llywodraethu ac adrodd clir ar gyfer gweithgareddau cydweithredol.
- **Cyfathrebu**  
Bydd cyfathrebu'n agored, yn amserol ac yn rhagweithiol. Mae'r ddau bartner yn ymrwmo i system negeseuon cydgysylltiedig, prosesau briffio ar y cyd, ac uwchgyfeirio unrhyw broblemau posibl yn gynnar.
- **Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**  
Byddwn yn cynnal y safonau uchaf o ran cydraddoldeb, gan sicrhau ymgysylltiad hygrych, dileu gwahaniaethu a chefnogi'r rheini sy'n wynebu anfantais.
- **Y Gymraeg**  
Bydd y ddau sefydliad yn cydnabod arwyddocâd gweithio mewn cymuned ddwyieithog, lle rhoddir statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg.
- **Atal a Diogelu**  
Mae diogelu yn gyfrifoldeb a rennir. Bydd yr holl waith ar y cyd yn cael ei gynllunio a'i gyflawni mewn ffordd sy'n diogelu plant, oedolion ac unigolion agored i niwed.
- **Datblygu Cynaliadwy**  
Bydd y ddau sefydliad yn ystyried llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol hirdymor penderfyniadau.
- **Arloesi**  
Bydd y ddau sefydliad yn chwilio am ddulliau arloesol sy'n seiliedig ar ddata ac yn croesawu offer digidol lle bo hynny'n briodol i wella canlyniadau ac ymgysylltu.



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL



Great British  
ENERGY | NUCLEAR

### GBE-N Values

- **Trust:** We prioritise safety, we act responsibly and with integrity.
- **Challenge:** We are curious and courageous in the way we think and act.
- **Drive:** We get things done and we make a difference.
- **Care:** We are thoughtful, inclusive and respectful of others.
- **Collaborate:** We work as a team; we value diversity and expertise.

Both parties commit to aligning behaviours to the above and ensuring teams understand and demonstrate these values in day-to-day work.

### 3. General Principles for Collaboration

Using IACC's published general principles and GBE-N's organisational standards, the partnership will operate according to the following:

- **Commitment and Accountability**  
Both organisations will act transparently, fulfil agreed responsibilities, and maintain clear governance and reporting routes for collaborative activities.
- **Communication**  
Communication will be open, timely, and proactive. Both partners commit to coordinated messaging, shared briefing processes, and early escalation of potential issues.
- **Equality and Diversity**  
We will uphold the highest standards of equality, ensuring accessible engagement, eliminating discrimination, and supporting those facing disadvantage.
- **Welsh Language**  
Both organisations will acknowledge the significance of working within a bilingual community, within which both the Welsh and English languages are afforded equal status.
- **Prevention and Safeguarding**  
Safeguarding is a shared responsibility. All joint work will be designed and delivered in a way that protects children, adults, and vulnerable individuals.
- **Sustainable Development**  
Both organisations will consider the long-term economic, social, environmental and cultural well-being of decisions.
- **Innovation**  
Both organisations will seek innovative, data-informed approaches and embrace digital tools where appropriate to improve outcomes and engagement.



#### 4. Ffyrdd o weithio gyda'n gilydd

##### Cynllunio a Gwneud Penderfyniadau ar y Cyd

- Sefydlu strwythur cyfarfod y cytunir arno ar y cyd i gydlynu ymgysylltu
- Cytuno ar ffyrddiau gwaith, cerrig milltir a phwyntiau penodol clir ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- Sicrhau bod sensitifrwydd gwleidyddol, cymdeithasol a chymunedol priodol yn cael ei ystyried yn gynnar.

##### Rhannu Gwybodaeth

- Rhannu gwybodaeth berthnasol yn agored ac mewn da bryd, yn amodol ar gyfrinachedd, dyletswyddau cyfreithiol a gofynion llywodraethu data.
- Ymrwmo i ddatrys problemau ar y cyd pan fydd heriau'n codi.
- Ymrwmo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i Aelodau Etholedig Lleol a rhanddeiliaid allweddol (e.e. aelodau o'r Fforwm Ynys Ynni).

##### Ymgysylltu â'r Gymuned

- Cydgysylltu negeseuon cyhoeddus er mwyn osgoi dryswch; os oes gwahaniaethau o ran safle neu farn, dylid gwneud y rhain yn glir.
- Sicrhau cynnwys dwyieithog (Cymraeg/Saesneg) ym mhob gohebiaeth, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.
- Cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn gynnar, yn dryloyw ac yn gyson.
- Cydweithio i gynnwys safbwyntiau pob rhan o'r gymuned, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn cael eu clywed yn aml.

##### Uwchgyfeirio a Datrys Problemau

- Dylid codi anghytundebau'n brydlon a mynd i'r afael â nhw ar y cyd.
- Cytunir ar lwybrau uwchgyfeirio ar lefel uwch swyddogion.

##### Llywodraethu ac Atebolrwydd

- Bydd cyfarfodydd monitro rheolaidd yn adolygu cynnydd, cydymffurfedd â'r cytundeb, ac effeithiau ar gymunedau.
- Bydd uwch arweinwyr o'r ddau sefydliad yn cael diweddariadau cyfnodol.
- Dylai'r cytundeb hwn fod ar gael yn rhwydd i staff y ddau sefydliad a'n rhanddeiliaid.



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL



Great British  
ENERGY | NUCLEAR

#### 4. Ways of Working Together

##### Joint Planning and Decision-Making

- Establish a jointly agreed meeting structure to coordinate engagement
- Agree clear workstreams, milestones, and decision gateways.
- Ensure appropriate political, social and community sensitivities are considered early.

##### Information Sharing

- Share relevant information openly and in good time, subject to confidentiality, legal duties, and data governance requirements.
- Commit to cooperative problem solving when challenges arise.
- Commit to regularly updating Locally Elected Members and key stakeholders (e.g. members of the Energy Island Forum).

##### Community Engagement

- Coordinate public messaging to avoid confusion; where there are differences of position or opinion, these should be made clear.
- Ensure bilingual (Welsh/English) content in all communication, with Welsh first.
- Involve key stakeholders early, transparently, and consistently.
- Work cooperatively to include and involve the views all sections of the community, including those seldom heard.

##### Escalation and Issue Resolution

- Disagreements should be raised promptly and addressed collaboratively.
- Escalation routes will be agreed at senior officer level.

##### Governance and Accountability

- Regular monitoring meetings will review progress, compliance with the agreement, and community impacts.
- Senior leaders from both organisations will receive periodic updates.
- This agreement should be readily available to the staff of both organisations and our stakeholders.



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL



Great British  
ENERGY | NUCLEAR

### Hyd ac Adolygiad

- Daw'r cytundeb hwn i rym pan gaiff ei lofnodi gan y ddau barti
- Dylid ei adolygu cyn yr ymgynghoriad statudol (gan nodi nad yw PAC1 yn statudol o dan y Ddeddf Cynllunio), neu'n gynt os bydd newidiadau sylweddol yn digwydd.
- Mae angen caniatâd ysgrifenedig ar y ddwy ochr i wneud newidiadau.

### Llofnodion

Cyngor Sir Ynys Môn

Great British Energy - Nuclear

### Duration and Review

- This agreement takes effect upon signature by both parties
- It should be reviewed prior to statutory consultation (noting that PAC1 is not statutory under the Planning Act), or sooner if significant changes occur.
- Amendments require mutual written consent.

### Signatures

Isle of Anglesey County Council

Great British Energy - Nuclear

